

Lesley Griffiths AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig  
Llywodraeth Cymru

8 Hydref 2018

Annwyl Lesley,

### Y cyllidebau carbon a'r rhaglen datgarboneiddio

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Medi 2018 ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyriaeth y Cynulliad o'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel a'r rheoliadau cyllidebu carbon drafft cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich gwahoddiad i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni.

Byddwch yn ymwybodol, o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban) 2009, bod Cynlluniau Cyflenwi cyfatebol yn destun gweithdrefnau craffu mwy trylwyr a rhaid eu gosod gerbron y Senedd mewn fersiwn drafft am gyfnod o 60 diwrnod cyn llunio'r fersiwn terfynol. Rydym yn gwerthfawrogi nad ydych o dan unrhyw rwymedigaeth statudol i gyhoeddi Cynllun Cyflawni drafft o dan ddeddfwriaeth Gymreig gyfatebol. Fodd bynnag, o ystyried ei arwyddocâd, ac mai hwn fydd y Cynllun Cyflawni cyntaf o'i fath o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, byddem yn ddiolchgar pe baech yn rhannu fersiwn drafft o'r Cynllun Cyflawni â ni cyn gynted ag y bo modd.

Rydym yn deall y bydd y Cynllun Cyflawni yn cael ei lywio gan ymatebion i'ch ymgynghoriad diweddar, *Cyflawni ein Llwybr Carbon Isel hyd at 2030*. Mae llawer o'r rhanddeiliaid y byddai'r Pwyllgor yn dymuno clywed ganddynt yn debygol o fod wedi ymateb i'ch ymgynghoriad diweddar. Felly, byddai o gymorth mawr pe baech yn ystyried rhannu unrhyw ymatebion gyda ni (yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth) er mwyn llywio ein gwaith.



Yn olaf, er mwyn sicrhau y gall y Pwyllgor fwydo i mewn i waith datblygu'r Cynllun Cyflawni mewn da bryd, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn amlinellu'n fanwl yr amserlen ar gyfer cwblhau'r Cynllun Cyflawni cyn iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2019.

**Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni am eich penderfyniadau mewn cysylltiad â'r ceisiadau hyn cyn gynted ag y bo modd ac, os ydych yn cytuno i rannu ymatebion yr ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor, eich bod yn gwneud hynny erbyn 19 Hydref er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud ei waith mewn da bryd.**

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

